

Cwestiynau Ysgrifenedig a Atebwyd o 15 i 22 Mehefin 1999

Answers to Written Questions from 15 to 22 June 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

[R] signifies the Member has declared an interest

Cynnwys

Contents

- 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol
Questions to the Secretary for the Environment and Local Government
- 2 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training
- 3 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development
- 5 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Secretary for Health and Social Services
- 9 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16
Questions to the Secretary for Under-16 Education
- 10 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol **Questions to the Secretary for the Environment and Local Government**

Transport Grant Scheme

Val Feld: Can the Secretary for the Environment and Local Government give an assurance that he will shortly be inviting local authorities to submit proposals for local road schemes under the transport grant scheme and can he give an indication of criteria that will apply? (WAQ 224VB)

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): We will invite bids for support under the transport grant arrangements for 2000-01 shortly, following consideration of the criteria by the Environment and Local Government Committee. In allocating the available finance, account will have to be taken of existing commitments and the need to continue support for integrated transport packages and the safe routes to school projects.

Cynllun Grantiau Trafnidiaeth

Val Feld: A all Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol roi sicrwydd y bydd yn estyn gwahoddiad yn fuan i awdurdodau lleol gyflwyno cynigion am gynlluniau ffordd lleol dan y cynllun grantiau trafndiaeth ac a yw'n gallu rhoi syniad o'r meini prawf a fydd yn gymwys? (WAQ 224VB)

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Byddwn yn gwahodd ceisiadau am gefnogaeth dan y Cynllun Grantiau Trafnidiaeth ar gyfer 2000-01 yn fuan, ar ôl i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth ystyried y meini prawf. Wrth ddyrannu'r cyllid sydd ar gael, bydd rhaid ystyried yr ymrwymïadau presennol a'r angen i barhau'r gefnogaeth ar gyfer pecynnau trafndiaeth integredig a phrosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol.

Rough Sleeping

Peter Black: What is the current status of the research into rough sleeping in Wales, what statutory and voluntary bodies have been contacted for information and when is the research envisaged to be concluded? (WAQ227VB)

Peter Law: Research is being undertaken into rough sleeping in Wales by a voluntary sector secondee who has been working with the Welsh Office since October 1998. Rough sleeping and homelessness has been treated as a high priority issue by the Secretary of State who has increased the resources to fund voluntary organisations to address homelessness in Wales in the current financial year by £400,000 compared to the previous year under Section 180 of The Housing Act 1996.

The research is currently at the stage where most visits and contacts with local authorities and voluntary organisations working with rough sleepers have now been completed. Meetings have been held with representatives of the housing sections of all 22 local authorities and with the main voluntary organisations working with people sleeping rough. It is planned that some additional visits and contacts with appropriate voluntary organisations will be made during the remainder of the research.

It is envisaged that the research will be completed for the Assembly to consider by the beginning of October 1999.

Cysgu ar y Stryd

Peter Black: Beth yw sefyllfa bresennol yr ymchwil ar gysgu ar y stryd yng Nghymru, pa gyrff statudol a gwirfoddol sydd wedi cael eu defnyddio i gasglu gwybodaeth a phryd y rhagwelir y bydd yr ymchwil wedi'i gwblhau? (WAQ227VB)

Peter Law: Mae person ar secondiad o'r sector gwirfoddol yn gwneud gwaith ymchwil i gysgu ar y stryd yng Nghymru ac mae wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Gymreig er mis Hydref 1998. Ymdriniwyd â chysgu ar y stryd a digartrefedd fel mater o flaenoriaeth uchel gan yr Ysgrifennydd Gwladol sydd wedi cynyddu'r adnoddau i gyllido mudiadau gwirfoddol er mwyn iddynt fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae hyn yn gynydd o £400,000 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol dan Adran 180 Deddf Tai 1996.

Mae'r ymchwil ar hyn o bryd wedi cyrraedd y pwynt lle mae'r rhan fwyaf o'r ymweliadau a'r cysylltiadau gydag awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol sydd yn gweithio gyda phobl sydd yn cysgu ar y stryd wedi'u cwblhau. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr adrannau tai pob un o'r 22 awdurdod lleol a chyda'r prif fudiadau gwirfoddol sydd yn gweithio gyda phobl sydd yn cysgu ar y stryd. Bwriedir ymweld a chysylltu â rhagor o fudiadau gwirfoddol priodol yn ystod gweddill y gwaith ymchwil.

Rhagwelir y bydd y gwaith ymchwil wedi'i gwblhau i'r Cynulliad ei ystyried erbyn dechrau mis Hydref 1999.

Planning Application: Poultry Units

Peter Black: Will Peter Law consider calling in planning application P96/1105/FUL: proposed poultry units at Tŷ-Erfyn, Tythegston, Bridgend for determination by the Assembly? (WAQ239JS)

Peter Law: A number of requests have been received to call in the planning application. Careful consideration is being given to these requests, and a decision will be made as soon as possible.

Cais Cynllunio: Unedau Ieir

Peter Black: A fydd Peter Law yn ystyried galw i mewn y cais cynllunio P96/1105/FUL: unedau iear arfaethedig yn Nhŷ-Erfyn, Tythegston, Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn i'r Cynulliad benderfynu yn ei gylch? (WAQ239JS)

Peter Law: Derbyniwyd sawl cais i alw'r cais cynllunio i mewn. Rhoddir ystyriaeth ofalus i'r ceisiadau hyn a gwneir penderfyniad cyn gynted ag y bo modd.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

The National Museums and Galleries of Wales

Jenny Randerson: Why has no specific financial help been allocated to the National Museums and Galleries of Wales to finance free admission for children and how much is it estimated that free admission for children would cost to finance in any one year? (WAQ 225VB)

Tom Middlehurst: The decision on whether to provide free admission for any category of visitor is a matter for the Council of the National Museums and Galleries of Wales, within the financial resources made available by the Secretary of State for Wales. From 1 July these responsibilities will fall to the National Assembly for Wales.

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

Jenny Randerson: Pam na ddyrannwyd unrhyw gymorth ariannol penodol i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru i ariannu mynediad am ddim i blant a faint yw amcangyfrif ariannu cost mynediad am ddim i blant o fewn unrhyw flwyddyn? (WAQ225VB)

Tom Middlehurst: Mater i Gyngor Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yw penderfynu a ddylid caniatáu mynediad am ddim i unrhyw ddsbarth o ymwelwyr, o fewn yr adnoddau ariannol a ddarperir gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Ar ôl 1 Gorffennaf, Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn gyfrifol am hyn.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development

Veterinarians: New Supervision Requirements

Nick Bourne: What representations has the Secretary for Agriculture and Rural Development received regarding new supervision requirements for veterinarians at abattoirs and cutting plants which come into effect on 1 April 1999 and what action does she propose to take in response to them? (WAQ230VB)

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): I am aware of the concerns of the industry in relation to the proposed Meat Hygiene Service inspection charges and supervision arrangements for 1999-2000. The Government announced on 21 April that it would be undertaking a close examination of the dynamics of the slaughtering sector and the impact of all proposed charges on abattoirs and on primary producers.

A consultation exercise involving all interested organisations has been undertaken, and four responses from Welsh bodies have been received. It is expected that an announcement on the outcome of the review will be made shortly.

Milfeddygon: Gofynion Goruchwylio Newydd

Nick Bourne: Pa gynrychioliadau y mae'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi'u derbyn ynghylch y gofynion goruchwylio newydd i filfeddygon mewn lladd-dai ac unedau torri cig a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1999 a sut mae'n bwriadu ymateb iddynt? (WAQ230VB)

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Yr wyf yn ymwybodol o bryderon y diwydiant gyda golwg ar gost arfaethedig archwiliadau'r Gwasanaeth Hylendid Cig a'r trefniadau goruchwylio ar gyfer 1999-2000. Cyhoeddodd y Llywodraeth ar 21 Ebrill y byddai'n edrych yn ofalus ar ddeinameg sector y lladd-dai ac yn ystyried effaith yr holl gostau arfaethedig ar ladd-dai a chynhyrchwyr cig.

Ymgynghorwyd â phob sefydliad sydd â diddordeb yn hyn, a chafwyd pedwar ymateb gan gyrrff Cymreig. Disgwylir gwneud cyhoeddiad ar ganlyniad yr arolwg cyn bo hir.

Access to Roam

Huw Lewis: What plans does Christine Gwyther have for consultation on access to roam mountain, moor, heath, down and common land in Wales? (WAQ256VB)

Christine Gwyther: The Assembly will be consulted on the Government's proposals for legislation and will need to form its own view on these matters. We will remain in close touch with the bodies representing key countryside interests.

Mynediad i Grwydro

Huw Lewis: Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i ymgynghori ar fynediad i grwydro ar dir mynyddig, rhostir, twyndir a thir comin yng Nghymru? (WAQ256VB)

Christine Gwyther: Ymgynghorir â'r Cynulliad ar gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer deddfwriaeth a bydd angen iddo lunio ei farn ei hun ar y materion hyn. Byddwn yn parhau i fod mewn cysylltiad agos gyda'r cyrff sydd yn cynrychioli buddiannau allweddol cefn gwlad.

Agriculture Processing and Marketing Grant

Elin Jones: What plans are being drawn up to replace the current agriculture processing and marketing grant which comes to an end on 31 December 1999. When will a new scheme become operational and will it follow the current guidelines and criteria? (WAQ236AG)

Christine Gwyther: The processing and marketing grant scheme is a European grant designed to improve the agricultural processing and marketing infrastructure in the UK. Under the scheme, capital grants are made to assist companies to erect new buildings, refurbish old premises and buy new equipment. Both the First Secretary and I see the type of activities carried out under the PMG scheme as vital to the delivery of the sectoral action plans for lamb and beef, dairy and organic foods and are well aware of the need for support of this nature to be maintained.

In future, the activities supported by PMG will be covered by the new Rural Development Regulation. This is part of the wider Agenda 2000 reforms and the Assembly is currently working up proposals for measures under this Regulation as part of the wider preparation of the planning on Objective 1 and other sources of European funding. The Assembly will be submitting a coherent plan for rural development in Wales to the European Commission in November.

Like the other member states, the UK is still in the planning stage on our response to the reforms, and at this stage we cannot say what criteria any new scheme will operate on. As far as implementation is concerned, the target set by the Commission is January 2000 and this is the date we are all working to.

Grant Prosesu a Marchnata Amaeth

Elin Jones: Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gael cynllun yn lle'r grant prosesu a marchnata amaeth presennol sydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 1999? Pryd y bydd cynllun newydd yn cael ei weithredu ac a fydd y cynllun newydd yn glynu wrth y canllawiau a'r meini prawf presennol? (WAQ236AG)

Christine Gwyther: Grant gan Ewrop yw cynllun y grant prosesu a marchnata gyda'r nod o wella seilwaith prosesu a marchnata amaethyddiaeth yng ngwledydd y DG. Dan y cynllun, rhoddir grantiau cyfalaf i gynorthwyo cwmnïau i godi adeiladau newydd, adnewyddu hen adeiladau a phrynu offer newydd. Mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau'n gweld y math o

weithgareddau a wneir dan y cynllun grant prosesu a marchnata yn hollbwysig er mwyn cyflawni Cynlluniau Gweithredu'r sector cig oen a chig eidion, y sector llaeth a'r sector bwyd organig, ac yr ydym yn ymwybodol iawn bod angen cynnal cefnogaeth o'r math hwn.

Yn y dyfodol, bydd y gweithgareddau a gefnogir gan y grant yn dod o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig newydd. Mae hwn yn rhan o ddiwygiadau ehangach Agenda 2000 ac mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn paratoi cynigion ar gyfer mesurau dan y Rheoliad hwn fel rhan o'r paratoad ehangach wrth gynllunio ar gyfer Amcan 1 a ffynonellau cyllid eraill Ewrop. Bydd y Cynulliad yn cyflwyno cynllun cydlynol ar gyfer datblygu cefn gwlad yng Nghymru i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Tachwedd.

Fel y gwladwriaethau eraill sydd yn aelodau, mae gwledydd y DU yn dal i fod yng nghyfnod cynllunio ein hymateb i'r diwygiadau, ac ar hyn o bryd, ni allwn ddweud ar ba feini prawf y seilir unrhyw gynllun newydd. O ran gweithredu'r cynllun, y dyddiad a osodwyd gan y Comisiwn yw Ionawr 2000 a dyma'r dyddiad yr ydym oll yn anelu ato.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **Questions to the Secretary for Health and Social Services**

Sickness Absence in the NHS

Peter Black: What is the level of absence for reasons of sickness in the NHS for 1997-98 and 1998-99 for each NHS trust in Wales, for each hospital and among nurses working in the community? (WAQ235VB)

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): The information requested is not held centrally as it is a matter for each trust to manage individually.

Absenoldeb Oherwydd Salwch yn yr NHS

Peter Black: Beth yw'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn yr NHS ym 1997-98 a 1998-99 ar gyfer pob un o ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru, pob ysbyty ac ymhlith nyrsys sydd yn gweithio yn y gymuned? (WAQ235VB)

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Nid yw'r wybodaeth y gofynnir amdani ar gael yn ganolog oherwydd mai mater i bob ymddiriedolaeth ei reoli ei hun yw hyn.

NHS in Wales (Bullying)

Peter Black: What guidance has been issued to deal with staff grievances in relation to bullying by senior management in the NHS in Wales? (WAQ 242JS)

Jane Hutt: Harassment at work in any form, including bullying, is wholly unacceptable. The General Whitley Council has affirmed that it expects employing authorities to ensure that employees enjoy a working environment in which the dignity of individuals is respected. This was communicated to the service through Advance Letter (GC)W2/93. To help ensure that all staff enjoy a working environment in which the dignity of individuals is respected it was recommended that employers publish a clear statement on harassment as part of their human resource management and equal opportunities policy and establish clear procedures for handling complaints. Such a statement should make it plain that employees have the right to be treated with respect. It should also make clear what is considered inappropriate behaviour at work, that it applies to all staff, that harassment is a disciplinary offence, and that certain forms of harassment may be unlawful, for example under the Sex Discrimination Act and

Race Relations Act. The statement should also describe how to get help and, where necessary, complain about harassment.

I can confirm that the Human Resource Compact and Strategic Framework for NHS Wales, which is presently being developed, will promote the improvement of workplace health specifically including freedom from harassment for all NHS staff.

Yr NHS yng Nghymru (Bwlio)

Peter Black: Pa ganllawiau sydd wedi'u cyhoeddi er mwyn delio â chwynion gan staff eu bod yn cael eu bwlio gan uwch-reolwyr yn yr NHS yng Nghymru? (WAQ242JS)

Jane Hutt: Mae aflonyddwch yn y gwaith, ar unrhyw ffurf, gan gynnwys bwlio, yn hollol annerbyniol. Mae Cyngor Cyffredinol Whitley wedi cadarnhau ei fod yn disgwyl i awdurdodau sydd yn cyflogi sicrhau bod pobl yn cael gweithio mewn amgylchedd lle perchir urddas unigolion. Cyflëwyd hyn i'r gwasanaeth drwy gyfrwng Blaenlythyr (GC)W2/93. Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael gweithio mewn amgylchedd lle perchir urddas unigolion, argymhellwyd y dylai cyflogwyr gyhoeddi datganiad clir ar aflonyddwch fel rhan o'u polisi rheoli adnoddau'r gweithlu a chyfleoedd cyfartal gan sefydlu trefniadau clir ar gyfer ymdrin â chwynion. Dylai datganiad o'r fath ei gwneud hi'n glir bod gan weithwyr yr hawl i gael eu trin gyda pharch. Dylai wneud yn glir hefyd beth sydd yn cael ei ystyried yn ymddygiad amhriodol yn y gwaith, bod hynny'n berthnasol i bob aelod o'r staff, bod aflonyddu yn drosedd ddisgyblu, ac y gall rhai ffurfiau ar aflonyddu fod yn anghyfreithlon, er enghraifft dan y Ddeddf Camwahanfaethu Rhywiol a'r Ddeddf Cydraddoldeb Hiliol. Dylai'r datganiad hefyd ddisgrifio sut i gael help a, lle bo angen, wrth bwy i gwyno am aflonyddwch.

Gallaf gadarnhau y bydd y Compact Adnoddau Dynol a Fframwaith Strategol NHS Cymru, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn hyrwyddo gwella iechyd y gweithle gan gynnwys yn benodol y rhyddid i bob aelod o staff yr NHS beidio â gorfod dioddef aflonyddwch.

Pathology Laboratory and Radiology Services

Brian Gibbons: Is Jane Hutt aware of the numbers of additional staff required in the pathology laboratory and radiology services to allow staff to meet the Working Time Directive? (WAQ281VB)

Jane Hutt: I am not aware of any additional numbers of staff required to implement the Working Time Directive in specific departments. It is for individual NHS trusts to ensure that departments are staffed adequately with the correct mix of staff.

Gwasanaethau Labordy Patholeg a Radioleg

Brian Gibbons: A yw Jane Hutt yn ymwybodol o'r nifer o staff ychwanegol y mae eu hangen yn y gwasanaethau labordy patholeg a radioleg i ganiatáu i staff fodloni'r Gyfarwydddeb Amser Gwaith? (WAQ281VB)

Jane Hutt: Nid wyf yn ymwybodol bod angen nifer ychwanegol o staff mewn adrannau penodol i fodloni'r gyfarwydddeb amser gwaith. Mater i ymddiriedolaethau NHS unigol yw sicrhau bod adrannau'n cael eu staffio'n ddigonol gyda'r gymhareb staff gywir.

Cook-chill Foods in Hospitals

Brian Gibbons: How many hospitals in Wales use cook-chill as their main method of providing food for patients, is she aware of the acceptability of such food to patients and how

does the nutritional status of cook-chill food compare to conventionally prepared food? (WAQ282)

Jane Hutt: Information on the number of hospitals in Wales using cook-chill as the main method of providing food for patients is not held centrally. The cook-chill system requires precise control to minimise microbial growth in order to safeguard food safety, but it has not been shown to have a significant intrinsic effect on the nutritional value of the food being prepared.

Bwydydd Coginio-Oeri mewn Ysbytai

Brian Gibbons: Sawl ysbyty yng Nghymru sydd yn defnyddio'r dull coginio-ori fel y prif ddull o baratoi bwyd i gleifion, a yw hi'n ymwybodol o ba mor dderbynol yw bwyd o'r fath i gleifion a sut mae gwerth maeth y bwyd hwn yn cymharu â bwyd sydd wedi'i baratoi'n gonfensiynol? (WAQ282)

Jane Hutt: Nid oes gwybodaeth ganolog ar gael ynghylch sawl ysbyty sydd yn defnyddio'r dull coginio-ori fel y prif ddull o baratoi bwyd i gleifion. Mae angen rheolaeth fanwl dros y drefn coginio-ori er mwyn sicrhau bod cyn lleied a phosibl o dwf microbaidd a sicrhau bod y bwyd yn ddiogel, ond ni ddangoswyd fod hyn yn cael effaith sylweddol yn ei hanfod ar werth maeth y bwyd a baratoir.

New Deal on Junior Doctors' Hours (Compliance)

Peter Black: How many NHS trusts are complying with the New Deal on junior doctors' hours? (WAQ 284AG)

Jane Hutt: The most recent returns from trusts indicate that one is complying completely. Nine are complying in part. Returns are awaited from five others. All are aware of the importance of the New Deal and the need for timely returns.

Y Fargen Newydd ar Oriau Meddygon Iau (Cydymffurfio)

Peter Black: Faint o ymddiriedolaethau'r NHS sydd yn cydymffurfio â'r Fargen Newydd ar oriau gweithio meddygon iau? (WAQ284AG)

Jane Hutt: Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan yr ymddiriedolaethau yn dangos bod un yn cydymffurfio'n llwyr. Mae naw yn cydymffurfio'n rhannol. Disgwylir gwybodaeth gan bump arall. Mae pawb yn ymwybodol o bwysigrwydd y Fargen Newydd a'r ffaith fod angen dychwelyd y wybodaeth yn brydlon.

New Deal on Junior Doctors' Hours (Monitoring)

Peter Black: What monitoring mechanisms have been put in place to establish progress on implementing the New Deal on junior doctors' hours in Wales? (WAQ285AG)

Jane Hutt: Monitoring is based on half-yearly returns from trusts, which are reviewed by the Medical Sub-Committee of the Medical and Dental Manpower and Education Committee. In addition, there were taskforce visits to all acute Welsh trusts a year ago. I have recently announced that a junior doctor will be employed full-time to gather first-hand information for the Assembly on the present situation, and that I will also be visiting junior doctors to discuss the matter further.

Y Fargen Newydd ar Oriau Gweithio Meddygon Iau (Monitro)

Peter Black: Pa drefniadau sydd yn eu lle i fonitro hynt y Fargen Newydd ar oriau gweithio meddygon iau yng Nghymru? (WAQ285AG).

Jane Hutt: Mae'r monitro wedi'i seilio ar wybodaeth a baratoir ddwywaith y flwyddyn gan ymddiriedolaethau ac sydd yn cael ei hadolygu gan Isbwyllgor Meddygol Pwyllgor y Gweithlu Meddygol a Deintyddol ac Addysg. Yn ogystal, ymwelodd y tasglu â phob ymddiriedolaeth aciwt yng Nghymru flwyddyn yn ôl. Yn ddiweddar, cyhoeddais y bydd meddyg iau yn cael ei gyflogi'n amser-llawn i gasglu gwybodaeth yn y fan a'r lle ynghylch y sefyllfa bresennol ar gyfer y Cynulliad ac y byddaf yn ymweld â meddygon iau i drafod y mater ymhellach.

New Deal on Junior Doctors' Hours (Purchasing Requirements)

Peter Black: What powers does the Assembly have to compel Health Authorities and local health groups to include the New Deal on junior doctor's hours in their purchasing requirements? (WAQ286AG)

Jane Hutt: I do not see this as a matter for inclusion in purchasing requirements.

Y Fargen Newydd ar Oriau Gweithio Meddygon Iau (Gofynion Pwrcasu)

Peter Black: Pa bwerau y mae'r Cynulliad yn meddu arnynt i fynnu bod awdurdodau iechyd a grwpiau iechyd lleol yn ymgorffori'r Fargen Newydd ar oriau gweithio meddygon iau yn eu gofynion pwrcasu? (WAQ286AG).

Jane Hutt: Ni welaf fod hyn yn fater i'w gynnwys yn y gofynion pwrcasu.

New Deal on Junior Doctors' Hours (Legally Binding Limit)

Peter Black: What powers does the Assembly have to enact secondary legislation to bring in a legally binding limit on the duty and work hours in line with the New Deal on junior doctors' hours? (WAQ287AG)

Jane Hutt: None. Once the Health Bill is enacted and powers in it are brought into force the Assembly will gain additional powers of direction over trusts which might be relevant to this matter (though their use would not of itself solve problems of recruitment).

Y Fargen Newydd ar Oriau Gweithio Meddygon Iau (Terfynau Cyfreithlon)

Peter Black: Pa bwerau y mae'r Cynulliad yn meddu arnynt i greu is-ddeddfwriaeth a fyddai'n cynnig terfynau cyfreithlon ar ddyletswyddau ac oriau gwaith meddygon iau, yn unol â'r Fargen Newydd a gytunwyd ar eu cyfer? (WAQ 287AG).

Jane Hutt: Dim. Unwaith y bydd y Mesur Iechyd ar y llyfr statud a'r pwerau ynddo mewn grym, bydd y Cynulliad yn meddu ar bwerau cyfarwyddo ychwanegol dros yr ymddiriedolaethau a all fod yn berthnasol i'r mater hwn (er na fyddai eu defnyddio ynddo'i hun yn datrys problemau recriwtio).

Appointment of over-65s to posts in NHS Trusts

Carwyn Jones How many people over the age of 65 have been appointed to posts in Welsh NHS trusts in the last 12 months? (WAQ288VB)

Jane Hutt: Information about trust recruitment decisions is not collected centrally, but trusts would only be expected to recruit staff of age 65 or over in exceptional circumstances; 65 being the normal retirement age for NHS staff.

The Secretary of State has so far appointed five chairs and six non-executive directors of age 65 or over to the 10 trusts that have recently been reconfigured, out of 10 and 46 appointments respectively.

Penodi Pobl dros 65 oed i Swyddi mewn Ymddiriedolaethau NHS

Carwyn Jones: Faint o bobl dros 65 oed sydd wedi'u penodi i swyddi yn ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ288VB)

Jane Hutt: Nid oes gwybodaeth ganolog am benderfyniadau recriwtio ymddiriedolaethau, ond ni fyddai disgwyl i ymddiriedolaethau benodi staff 65 oed a hŷn heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, gan mai 65 yw'r oed ymdeol arferol i staff yr NHS.

Hyd yn hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penodi pum cadeirydd a chwe chyfarwyddwr anweithredol 65 oed a hŷn i'r 10 ymddiriedolaeth a ailuniwyd yn ddiweddar, allan o 10 a 46 o benodiadau yn y drefn honno.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 Questions to the Secretary for Under-16 Education

Allocation of Money to Schools

Peter Black: What plans does the Secretary for Under-16 Education have to review the formula criteria by which money is allocated to schools by local education authorities in Wales? (WAQ234VB)

The Secretary for Under-16 Education (Rosemary Butler): The way money is distributed to schools through a local education authority's funding formula was considered last year as part of the Welsh Office's review of the funding arrangements for LEA and grant-maintained schools. The Financing of Maintained Schools Regulations 1999, which took effect on 1 April 1999, offer a menu of factors from which local authorities can select so that their distribution formula takes account of local needs. The formula must treat all schools fairly. Schools have to be consulted and their views considered by the local authority. The only limitation prescribed by the regulations is that 80 per cent of primary and secondary school funding is allocated by means of factors which are pupil led. Factors which are pupil led are set out in the regulations.

The Under-16 Education Committee has indicated that this is a matter it wishes to consider once the arrangements introduced by the 1999 regulations have bedded down.

Dyrannu Arian i Ysgolion

Peter Black: Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 i adolygu'r meini prawf fformiwla sydd yn pennu faint o arian a gaiff ei ddyrannu i ysgolion gan awdurdodau addysg lleol Cymru? (WAQ234VB)

Yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 (Rosemary Butler): Ystyriwyd y ffordd y dosberthir arian i ysgolion trwy gyfrwng fformwla cyllido'r awdurdodau addysg lleol y llynedd fel rhan o arolwg trefniadau cyllido'r Swyddfa Gymreig ar gyfer ysgolion AAL1 ac ysgolion sydd yn

cael eu cynnal â grant. Mae'r Rheoliadau Cyllido Ysgolion a Gynhelir 1999, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1999, yn cynnig dewislen o ffactorau y gall awdurdodau lleol ddewis ohonynt er mwyn i'w fformwla dosbarthu ystyried anghenion lleol. Rhaid i'r fformwla drin pob ysgol yn deg. Rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori gyda'r ysgolion ac ystyried eu barn. Yr unig gyfyngiad a bennir gan y rheoliadau yw bod 80 y cant o gyllid ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael ei ddyrannu drwy gyfrwng ffactorau sydd yn cael eu harwain gan ddisgyblion.

Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 wedi dweud bod hyn yn fater y mae'n dymuno'i ystyried unwaith y mae'r trefniadau a gyflwynwyd gan Reoliadau 1999 wedi ymwreiddio.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

School Councils and Independent Councillors

John Griffiths: What measures are in place or planned to advise schools to establish school councils and independent councillors within an agreed timetable to empower and support children? (WAQ254VB)

The First Secretary: The introduction of school councils and the provision of independent councillors is a matter for individual schools. Draft guidance on school attendance, behaviour and discipline issued by the Welsh Office in March for consultation acknowledged that school councils can play a positive part in preventing attendance and behaviour problems by encouraging their involvement in school life.

The guidance also recommends that school staff should work closely with local education authorities and other relevant agencies in implementing a pastoral support programme for pupils at serious risk of exclusion. The final guidance will be introduced in September.

In addition, draft guidance on the education of children looked after by local authorities, to be issued shortly for consultation will recommend that such children should be supported by a designated teacher. The final guidance will be introduced in early 2000.

Cynghorau Ysgol a Chynghorwyr Annibynnol

John Griffiths: Pa fesurau sydd mewn grym neu wedi'u cynllunio i gynghori ysgolion i sefydlu cynghorau ysgol a chynghorwyr annibynnol o fewn amserlen gytûn i awdurdodi a chefnogi plant? (WAQ254VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mater i ysgolion unigol yw cyflwyno cynghorau ysgol a darparu cynghorwyr annibynnol. Mae canllawiau drafft ar bresenoldeb, ymddygiad a disgyblaeth mewn ysgolion a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ym mis Mawrth ar gyfer ymgynghori yn cydnabod y gall cynghorau ysgol fod â swyddogaeth bositif o ran atal problemau presenoldeb ac ymddygiad trwy annog disgyblion i gyfrannu at fywyd yr ysgol.

Mae'r canllawiau hefyd yn argymhell y dylai staff ysgolion gydweithio'n glòs gydag awdurdodau addysg lleol ac asiantaethau perthnasol eraill i weithredu rhaglen gefnogi fugeiliol i ddisgyblion sydd mewn perygl difrifol o gael eu gwahardd. Cyflwynir y canllawiau terfynol ym mis Medi.

Hefyd, bydd y canllawiau drafft ar addysg plant sydd dan ofal awdurdodau lleol, i'w cyhoeddi'n fuan ar ôl ymgynghori, yn argymhell y dylai athro/athrawes p/benodedig gefnogi plant o'r fath. Cyflwynir y canllawiau terfynol yn fuan yn y flwyddyn 2000.

Draft Concordats

Dafydd Wigley: When will Assembly Members receive copies of the draft Concordats with the relevant UK Government departments and when will the Assembly have the opportunity to debate them? (WAQ279JS)

The First Secretary: I will arrange for concordats to be published bilingually as soon as the final text is available. I expect this to be in the reasonably near future.

Concordatiau Drafft

Dafydd Wigley: Pryd y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cael copïau o'r Concordatiau drafft gydag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU a phryd caiff y Cynulliad gyfle i'w trafod? (WAQ279JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Trefnaf i'r concordatiau drafft gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog cyn gynted ag y bydd y testun terfynol ar gael. Yr wyf yn disgwyl i hyn ddiwydd yn y dyfodol cymharol agos.

Denbighshire County Council: Auditor's Report

Ann Jones: When will the First Secretary be in a position to respond to the Auditor's report on Denbighshire County Council and what proposals does he have to meet any extra financial burden placed on this Council? (WAQ 260VB)

The First Secretary: My officials have had informal discussions with Denbighshire County Council on the Deloitte Touche report. The European Commission has asked for a copy of it and we are seeking a meeting with the Commission to discuss it. Until that meeting has taken place we will not be in a position to speculate on what, if any, financial implications might flow from it for the Council.

Cyngor Sir Ddinbych: Adroddiad yr Archwiliwr

Ann Jones: Pryd y bydd y yn gallu ymateb i adroddiad yr Archwiliwr ar Gyngor Sir Ddinbych a pha gynigion sydd ganddo i ddiwallu unrhyw bwysau ariannol ychwanegol a roddir i'r Cyngor hwn? (WAQ260VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gyda Chyngor Sir Ddinbych ar adroddiad Deloitte Touche. Mae y Comisiwn Ewropeaidd wedi gofyn am gopi ohono ac yr ydym yn ceisio cyfarfod gyda'r Comisiwn i'w drafod. Hyd nes y cynhelir y cyfarfod hwnnw, ni fyddwn mewn sefyllfa i ragweld pa oblygiadau a all ddeillio o hynny i'r Cyngor, os bydd oblygiadau o gwbl.